VAULT
094
M557
1851
no. 2

# TRAETHAWD

AR

# WYRTHIAU,

YN DARLUNIO

PA BETH YDYNT, EU DYBEN, Y PRYD EU CYFLAWNIR, A'U SAFONOLRWYDD I BROFI DWYFOLDEB CREFYDD.

"Y PETHAU hyn a ysgrifenais atoch yn nghylch y rhai sydd yn eich hudo,"—1 IOAN II, 26.

GAN JOHN DAVIS, MERTHYR.

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN J. DAVIS, GEORGETOWN;

AR WERTH HEFYD

Gan y Saint yn gyffredinol, a llawer o Lyfrwerthwyr, trwy y Deau a'r Gogledd.

1851.

# GWYRTHIAU.

NI chredwn fod un oes wedi myned heibio, yn yr hon y llefarwyd cymmaint am wyrthiau, nâ'r oes bresennol; ac ni allwn gredu llai hefyd nad yw yr hyn a lefarir yn awr am danynt, yn ffolach nâ dim a glywyd erioed mewn un oes arall. Os felly y mae, ni fydd dim yn ddoethach nag i ni, ynghyd ag ereill, os oes genym rywbeth i ddweyd yn amgenach nâ dynion yn gyffredin, i dreio ein goreu i gael pobl i iawn ystyriaeth ynghylch y mater. I'r dyben hyny, ynte, cawn sylwi, yn

I. PA BETH YW GWYRTHIAU?

Dywed dynion yn gyffredin mai rhyw bethau a gyflawnir yn groes i reol natur yw gwyrthiau, ac nad ydynt ond megys eithriadau a wneir gan Dduw; megys arosiad yr haul a'r lleuad yn y ffurfafen, y tri llanc ddim yn llosgi yn y ffwrn dân, &c. Ond nis gallwn ni gredu felly; oblegid gwyrth a alwn ni yr hyn sydd tu hwn i'n dealltwriaeth, a'r hyn na allwn ei amgyffred, neu na fyddom wedi ymgynnefino ag ef. Nid oes dim yn wyrthiau yn ngolwg Duw, o herwydd y mae efe yn deall pa fodd y mae pob peth yn cael ei gyflawni: eithr i ni ymddengys pob peth yn wyrth, os na fyddwn yn ei amgyffred, neu wedi ymgynnefino ag ef. Y mae cymmaint o ryfeddod mewn bod y ddaear yn troi, â phe buasai yn sefyll, o herwydd ni wyddom pa fodd y mae y naill na'r llall yn cael ei effeithio; ond pe safai y ddaear, ystyriem hyny yn fwy o wyrth, am nad yw yn beth cyffredin, tra byddai y llall yn gymmaint o wyrth, oni fuasai ei fod yn beth mor gyffredin. Buasai gweled *gas* yn llosgi yn wyrth yn ngolwg dynion na welsant ac na chlywsant ddim am hyny o'r blaen; a gellir dweyd yr un fath gyda golwg ar yr ager-gerbydau, a llawer o bethau ereill. Yr ydym ni yn gyfarwydd â'r rhai hyny, ac yn

gwybod pa fodd y maent yn gweithredu, ac o ganlyniad nid ystyriwn hwynt yn un rhyfeddod. Felly, pe buasem ni yn deall pob peth ag y mae Duw yn ddeall, ni allai gwyrthiau byth ddygwydd, canys byddai pob peth yn gweithredu yn hollol naturiol, ac mewn ffordd ag a fuasem yn ei llwyr ddeall. Fel ag yr ydym, y mae llawer o bethau ag y mae Duw yn eu cyflawni, yn ymddangos yn wyrthiau i ni, hyd nes y byddom yn dyfod i wybod pa fodd eu cyflawnir, ac yna mae eu rhyfeddod yn darfod, a pheidiant â bod yn wyrthiau wedi hyny. Ystyria llawer iachâu y claf trwy osodiad dwylaw yn wyrth; eithr nid yw y sawl sydd yn gwybod pa fodd y mae Ysbryd Duw yn gweithredu ar y claf, yn ystyried hyny yn fwy o ryfeddod nag yw iachâu y claf trwy foddion doctor, neu trwy gyfrwng Mesmeryddiaeth. Efelly hefyd y gallem ddweyd mewn perthynas i lefaru â thafodau newyddion, &c.: nid yw y rhai hyn ychwaith yn wyrthiau i'r sawl sy'n eu harferyd, o herwydd y gwyddant pa fodd y mae yr Ysbryd yn gweithredu ynddynt. Mewn gair, y mae pob peth a gyflawnir, os bydd tuhwnt i'n dealltwriaeth, ac yn beth anarferol, yn gyffredin yn cael ei alw yn wyrth. Nid Duw yn unig yw awdwr gwyrthiau, ond pob bod arall ag sydd yn meddu ar ddigon o wybodaeth a gallu i wneuthur rhywbeth tu hwnt i'r cyffredin. Y mae genym ddigon o enghreifftiau o hyn yn yr ysgrythyrau santaidd. Darllener yn Exodus vii a viii am droad y gwiail yn seirff, a'r dyfroedd yn waed, a chreadigaeth y llyffaint. Yr oedd y swynwyr yn gwneuthur hyny yr un fath â Moses; a'r achos fod Moses wedi eu gorchfygu mewn rhai gwyrthiau, oedd, am ei fod yn fwy gwybodus a medrus. Wedi i'r dewiniaid fethu creu llau ar hyd y wlad, dywedasant wrth Pharoah, "Bys Duw yw hyn:" ond ni fynai efe gredu, gan ei fod wedi gweled cymmaint o fedrusrwydd y dewiniaid. Nid oes un lle i feddwl nad oedd gwyrthiau y swynwyr mor wirioneddol â gwyrthiau Moses; yr unig wahaniaeth oedd, fod gwyrthiau Moses yn allu Duw, a gwyrthiau y dewiniaid yn allu y diafol. Yr oedd gwyrth y ddewines o Endor yn cyfodi y marw, yn ddigon gwirioneddol; ac felly y bydd y gwyrthiau a gyflawnir yn y dyddiau diweddaf gan y gau-brophwydi, pan dynant dân o'r nefoedd yn ngolwg dynion. Yr achos, feddyliem ni, fod gwyrthiau felly yn cael eu galw yn *gau*, yw am mai trwy "dad y celwydd" y cyflawnir hwy, ac nid o herwydd nad ydynt yn cymmeryd lle yn wirioneddol.

Dichon fod yr hyn a ddywedasom ar y pen uchod yn ddigonol yn bresennol, gyda gwneuthur un sylw ychwanegol mewn perthynas i'r gair "gwyrthiau," yn y cyssylltiad y mae ynddo yn 1 Cor. xii, 10 ("Ac i arall wneuthur gwyrthiau"), ac yn adn. 28 ("yna gwyrthiau"). Mae yn bosibl i Dduw gyfranu dawn i ddyn i wneyd yr hyn na fyddo yn amgyffred, neu yr hyn na fyddo ereill yn amgyffred, trwy fod Duw yn peri iddo weithredu megys y byddo yn ei gyfarwyddo. Mae y ddawn o wneuthur gwyrthiau, yn yr ysgrythyrau uchod, yn wahanol i'r doniau ereill, y rhai y mae dynion yn gyffredin yn barod i'w cyfrif yn wyrthiau yn yr un modd. Mae yr oll o weithrediadau yr Ysbryd Glân yn ymddangos yn wyrthiau i'r byd, ond nid ymddangosant felly i'r eglwys: er hyny, y mae llawer o bethau yn wyrthiau yn yr eglwys, o herwydd nad yw ei haelodau yn deall pa fodd y maent yn cael eu cyflawui; eithr wedi i'r eglwys ddyfod yn "wr perffaith" a dealltus, byddant oll yn darfod, canys bydd pob peth yn ymddangos megys yn gweithredu yn rheolaidd, ac yn unol â'r hyn a eilw dynion yn "reol natur."

II. Pa beth yw dyben Gwyrthiau?

Gallwn ateb fod i wyrthiau wahanol ddybenion, fel pob peth arall a gyflawnir gan Dduw neu ddynion. Trowyd y wialen yn sarff, a'r dwfr yn waed, &c., gan Moses, er mwyn caledu calon Pharoah; eithr fe agorwyd y môr coch er mwyn gwaredu yr Israeliaid, a chladdu yr Aifftiaid; ac fe wlawiwyd y manna, ac fe darawyd y graig, er mwyn rhoi bara a dwfr i'r Israeliaid yn yr anialwch; ac fe agorodd y ddaear yno ei safn er llyncu y gwrthryfelwyr yn erbyn Duw. Porthodd Crist y pum mil o herwydd eu bod yn newynog, ac agorodd lygaid y deillion er mwyn iddynt weled. Adgyfododd Pedr y chwaer Tabitha, er cysuro y gwragedd gweddwon, a dangos gallu Duw; a cheryddodd Paul yr ysbryd dewiniaeth yn y lances, er mwyn cael llonydd ganddi. Felly, fe welwn fod gwahanol ddybenion mewn golwg pan gyflawnir gwyrthiau. Dyben swynwyr a dewiniaid yn eu cyflawni, yw ennill bywioliaeth; a dyben gau-gristiau a gau-brophwydi yn eu cyflawni, yw er cadarnhau eu hathrawiaethau a'u Cristionogaeth, a pheri i fawrion a bychain eu canlyn.

Mae yn gred gyffredin gan dduwinyddion yr oes hon mai dyben gwyrthiau yn amser yr apostolion, oedd sefydlu crefydd Iesu Grist; ac wedi iddi gael ei sefydlu unwaith, nad oedd eisieu

UPB

gwyrthiau byth wedi hyny. Mae yn ddrwg genym nad allwn gytuno yn ein barn. Os oedd eisieu gwyrthiau er ei sefydlu yn ngwlad Canaan, y mae eisieu gwyrthiau yn yr oes bresennol er ei sefydlu mewn gwledydd pellenig. Ond nid ymddengys mai dyna ddyben gwyrthiau Iesu Grist a'i apostolion; canys dyfod a wnaethant hwy i ddattod gweithredoedd y diafol, trwy iachâu y cleifion, a gwneuthur pethau rhyfedd er daioni; ac y mae cymmaint o anghen am eu gwyrthiau hwy yn awr ag a fu erioed, gan fod llawer iawn o weithredoedd y diafol heb eu dattod etto. Yr oedd Crist a'i apostolion yn ymdrechu cyflawni eu holl wyrthiau, hyd ag y gallent, mor ddirgelaidd ag oedd yn bosibl, yr hyn ni fuasent byth yn wneuthur pe buasent am sefydlu eu crefydd trwy eu cyflawni. Yr oedd y ffordd a gymmerodd Crist i sefydlu ei grefydd, yr un â'r ffordd a fwriadodd er ei chario yn mlaen, sef trwy bregethu. Mae Duw wedi addaw cadarnhau gair pob un o'i bregethwyr trwy yr "arwyddion sydd yn canlyn y credinwyr, nid tra yr oedd yr eglwys yn cael ei sefydlu, ond cyhyd ag y byddai pregethu trwy yr holl fyd. Pa le bynag, a pha bryd bynag, y y pregethir gair Duw, y mae efe yn addaw cyd-weithio a chadarnhau y gair, trwy yr arwyddion y rhai sydd yn canlyn, nid yn unig yn amser sefydliad yr eglwys, ond hyd ddiwedd y byd.

Wedi ceisio profi mai nid dyben gwyrthiau Crist a'r apostolion oedd er sefydlu eu crefydd, ymdrechwn brofi yn nesaf, mai prif ddyben y gau-brophwydi a'r gau-gristiau, wrth gyflawni gwyrthiau, fydd er sefydlu eu crefyddau, ac nid er gwneuthur daioni fel Crist a'i apostolion. Desgrifir y cymmeriadau uchod yn Math. xxiv, 24,—"Canys cyfyd gau-gristiau, a gau-brophwydi, ac a roddant arwyddion mawrion a rhyfeddodau, hyd oni thwyllant, pe byddai bosibl, ïe, yr etholedigion." Os dywed gwahanol grefyddwyr ein gwlad mai dyben gwyrthiau yw sefydlu gau-grefyddau, yr ydym yn cytuno yn ein barn: ond gwell ganddynt hwy gredu nas gall gau-brophwydi wneyd arwyddion neu wyrthiau, er mwyn cadw y grediniaeth mai gwyrthiau yw maen prawf gwir grefydd. Yn wir, y mae agos pob oes o'r byd wedi bod o'r un farn. Yn amser Iesu Grist, buasai yr holl wlad yn ei gredu (os gallwn goelio eu dywediadau), pe buasent yn cael prawf digonol trwy arwyddion neu ryfeddodau mai efe oedd Mab Duw; ond yr oedd Crist yn dweyd mai cenedlaeth ddrwg a godinebus oedd yn ceisio arwydd. Ac y mae yr oes bresennol, o'r lleiaf

hyd y mwyaf, yn barod i gredu unrhyw athrawiaeth, os cyflawnir gwyrthiau ger eu bron. Y mae llawer o bregethwyr enwog y gwahanol enwadau crefyddol, yn bresennol, yn foddlawn i gredu hyd y nod yr "hen Seintiau," pe ceid rhywun yn eu plith, fel y ddewines o Endor, i gyfodi rhyw un marw iddynt : nid yw gymmaint o wahaniaeth am yr athrawiaeth, os gallant gael rhyw wyrth. O, na ddeuai rhyw un fel Simon y swynwr ar draws y wlad, a chyflawni ychydig o arwyddion iddynt; buan y ceid clywed pawb o honynt, o'r lleiaf hyd y mwyaf, yn dywedyd, fel y dywedwyd am Simon, "Mawr allu Duw yw hwn" (Act. viii, 10). Ymddengys i Simon ennill fwy o enw da, trwy ei arwyddion, nag a ennillodd Iesu Grist; ac y mae yn ddiau yr ennilla y gau-gristiau a'r gau-brophwydi sydd i ddyfod, lawer mwy o ddyscyblion nag a ennillodd Crist a'i apostolion ynghyd ; canys hwy "a roddant arwyddion mawrion a rhyfeddodau," yr hyn y mae yr holl wlad yn uchel alw am dano. "Rhowch i ni arwydd," meddant, "a ni a gredwn." Mae crefyddwyr ein gwlad yn iawn eu gwala; gwyrthiau yw y maen prawf i brofi pob crefydd newydd; a hyn a ŵyr y gau-brophwydi yn dda, canys hwy "a roddant arwyddion mawrion a rhyfeddodau, hyd oni thwyllant, pe byddai bosibl, ïe, yr etholedigion." Ond yr un yw y maen prawf i brofi crefydd Iesu Grist yn awr, ag ydoedd gynt: ac ni fu erioed yn wyrthiau, onide buasai Crist yn eu cyflawni er mwyn pob un oedd yn eu ceisio er cael prawf o'r gwirionedd. Pan y cyflawnir gwyrth yn unig er mwyn boddloni ceiswyr arwyddion ynghylch gwirionedd rhyw grefydd, mae yn amlwg mai gau-brophwyd yw ei hawdwr; canys fe ddarllenwn yn y Dadguddiad am un yn gwneuthur rhyfeddodau mor fawr, "hyd onid yw yn peri i dân ddisgyn o'r nef i'r ddaear, yn ngolwg dynion," heb un dyben mewn golwg ond "twyllo y rhai sydd yn trigo ar y ddaear," yn fychain a mawrion, cyfoethogion a thlodion, rhyddion a chaethion. Os delir sylw digonol ar grefyddwyr yr oes hon, fe geir prawf mai gwyrthiau o'r natur hyn y maent yn ymofyn, sef gwyrthiau gau-brophwydi a gau-athrawon ; canys pe byddent yn ymofyn gwyrthiau gan Dduw, ymddygent yn hollol wahanol: ni ofynent wyrthiau er mwyn profi eu crefydd, ond er mwyn lles personol eu hunain, ynghyd â gogoniant Duw. Yn awr, wedi olrhain cymmaint â hyna ynghylch dyben gwyrthiau, cawn fyned at bwnc arall.

### III. A all Gwyrthiau gael eu cyflawni ar ol dyddiau Crist a'r Apostolion?

Os mai sectariaid yr oes sydd i ateb y cwestiwn hwn, dywedant gyda'u gilydd, Na allant. Ond os mai Saint y Dyddiau Diweddaf sydd i ateb, dywedant yn ddigon penderfynol, Gallant. Pwy sydd yn iawn, y sectariaid neu y Saint? Nid haeriad wna y tro, ond rhaid profi y pwnc trwy reswm ac ysgrythyr.

Wel, gan mai Duw, trwy ddynion, sydd yn cyflawni gwyrthiau, y mae yn rhesymol y gall ef gyflawni gwyrthiau trwyddynt yn y dyddiau hyn, yn gystal ag yn y dyddiau gynt. Ac felly hefyd y gellir dywedyd mewn perthynas i alluoedd y tywyllwch. Nad beth oedd dyben gwyrthiau gynt, y mae digon o'u heisieu at ddybenion cyffelyb yn yr oes hon. Os mai er argyhoeddi oeddynt, y mae anghen am danynt at hyny etto; neu, os mai er gwneuthur daioni oeddynt, y mae llawn cymmaint o'u heisieu at hyny hefyd yn yr oes hon. Y mae pob oes o'r byd wedi bod mewn anghen o wyrthiau, a phaham y mae dynion mor ffol â meddwl nad oes eu heisieu yr un fath yn y dyddiau diweddaf hyn? Y mae pob un sydd yn gwybod rhywbeth, yn gwybod nad yw gwyrthiau wedi llwyr ddarfod yn y hyd; canys dysgwylir yn hyderus am adgyfodiad y meirw, yr hyn a fydd yn fwy o wyrth na dim a ddygwyddodd erioed. Heblaw hyny, y mae yr ysgrythyrau yn ein cynnysgaethu â llawer o brophwydoliaethau am wyrthiau i gael eu cyflawni yn y dyddiau diweddaf. Yn Esay xi, 15, 16, darllenwn fel y canlyn:—"Yr Arglwydd hefyd a ddifroda dafod môr yr Aifft, ac â'i wynt nerthol efe a gyfyd ei law ar yr afon, ac a'i try hi yn y saith ffrwd, ac a wna fyned drosodd yn droedsych. A hi a fydd yn brif ffordd i weddill ei bobl ef y rhai a adewir o Assyria, megys ag y bu i Israel yn y dydd y daeth efe i fyny o dir yr Aifft." Darllener hefyd Esay xxxv, 5—8; Zech. x, 11; Jer. xxiii, 4—8; ynghyd â lluoedd o fanau ereill a allem nodi. Mae yr ysgrythyrau yn rhag-ddywedyd hefyd am wyrthiau gan y gau-brophwydi a'r gau-gristiau yn y dyddiau diweddaf, y rhai a fyddant yn cael eu cyflawni er hudo pobl i gredu athrawiaethau gau. Prophwydir gan Ioan, yn Dad. xvi, 13, 14. "Ac mi a welais dri ysbryd aflan tebyg i lyffaint yn dyfod allan o safn y ddraig, ac allan o safn y bwystfil, ac allan o enau y gau-brophwyd: canys ysbrydion

cythreuliaid, yn gwneuthur gwyrthiau ydynt, y rhai sydd yn myned allan at freninoedd y ddaear, a'r holl fyd, i'w casglu hwy i ryfel y dydd hwnw, dydd mawr Duw Hollalluog."

Yn awr, meddyliwn ein bod wedi dangos digon i brofi y rhesymoldeb a'r posiblrwydd o gyflawniad gwyrthiau yn y dyddiau diweddaf hyn, heb achos blino y darllenydd â gormod o enghreifftiau. Yn wir, gall pob dyn weled nad yw yr hyn o wyrthiau a gyflawnwyd er dechreuad y byd, ddim ond ychydig i'w cymharu â'r gwyrthiau rhyfeddol a gant eu cyflawni ar y blaned hon yn yr amser a ddaw. Y mae pob bryn a phant i gael eu gwneyd yn gydwastad; a'r mynyddoedd i neidio o'u lleoedd. Sêr y nefoedd a syrthiant megys ffigys gleision; y lloer a droir yn waed, a'r haul yn dywyllwch. Y ddaear a sigla megys meddwyn; a'r holl elfenau gan wir wres a doddant. "Ië, ond nid gwyrthiau fydd hyny," ddywed rhywun: os gwyrthiau yw yr hyn sydd yn groes i "reol natur," gwyrthiau fydd y rhai hyny.

Ond y pwnc ag ef yw, y mae braidd holl grefyddwyr ein gwlad yn addef y posiblrwydd o gyflawniad gwyrthiau yn y dyddiau hyn; ac er y gwadant hyny ar air, y maent yn ei addef mewn gweithred. Pwy sydd yn haeru nad oes eisieu gwyrthiau yn ein dyddiau ni? Wel, y dynion hyny sydd yn ymgynnull at eu gilydd yn barhaus, naill ai i weddio am wlaw, neu am dywydd teg, neu am iechyd, neu rywbeth cyffelyb; yr hyn yw gweddio am wyrthiau, neu gyflawniad pethau yn groes i "reol natur." A ŵyr y bobl hyn beth y maent yn ymgeisio ei wneyd? Ceisio agor a chau y nefoedd fel Elias gynt!! Nid dyma y bobl, os bosibl, sydd yn erlid y Saint am eu bod yn credu mewn gwyrthiau? Adnabyddwch eich hunain, fobl bach, yr ydych chwi yn credu mewn gwyrthiau gymmaint â neb a fu erioed; o herwydd y mae eich gweithredoedd yn profi hyny tu bwnt i bob dadl. Ai nid y chwi a osododd yr hysbysiad canlynol i fyny ar hyd muriau Merthyr yn amser y Cholera:—

"Y Geri Marwol yn Merthyr Tydfil.—Bwriedir neillduo dydd Llun nesaf (Awst 13eg, 1849), fel dydd o ympryd crefyddol, ac ymostyngiad gerbron yr Hollalluog Dduw, mewn canlyniad i'r ymweliad uchod. Bydd gwasanaeth dwyfol yn yr eglwys, ar yr orau arferol o weddi, a chynnelir *cyfarfodydd gweddi* yn yr holl gapeli ymneillduol am saith a deg o'r gloch y boreu, a dau a chwech o'r gloch yn y prydnawn. Dymunir yn daer ar bawb

roddi pob cyfleustra, fel y gallo y rhai a fydd yn ewyllysio cyd-uno yn y cyfryw gyfarfodydd, i erfyn ar Dduw, dros y lle hwn, fel y byddo i'r ymweliad gael ei santeiddio er ein llesâd ysbrydol, *ac ar iddo gael ei symud o'n plith*."

Yr oedd y bobl am i Dduw gyflawni gwyrth, trwy symud y Cholera o'u plith, tra yn haeru â'r Saint fod oes y gwyrthiau wedi darfod !

Nid yn unig y mae'r sectariaid yn credu, trwy eu gweithred-oedd, fod Duw yn gallu cyflawni gwyrthiau yn y dyddiau hyn ; eithr cyhoeddasant cyflawniad gwyrthiau yn eu plith eu hunain hefyd. A ganlyn sydd ddyfyniad o un honynt, ag sydd yn dal perthynas â gwraig rinweddol o'r enw Dinah Davies, Rymni, yr hon a fu yn offeryn i blanu Methodistiaeth gyntaf yn y lle hwnw, gwel *Seren Gomer*, Chwef. 1839, tud. 34 :—

"Fel ag yr oedd gwr dyeithr, nid anenwog, yn dyfod trwy y wlad, ac yn pregethu yn ein tŷ, am dri o'r gloch prydnawn, lliaws mawr o gyfeillion Merthyr a ddaethant i'w wrandaw. Nid oedd y wraig wedi pobi yr wythnos hono; ac o herwydd hyny nid oedd o fewn ein hannedd ond prin hanner torth o fara. Y gweinidog a'r lliaws dyeithriaid a fwytasant, ac a ddiwallwyd ; ond er hyny, er ein dirfawr syndod, wedi iddynt fyned ymaith, nis gallem farnu fod y bara ddim yn llai ; a'n penderfyniad oedd mai yr Arglwydd a'i bendithiodd mewn modd rhyfeddol ac anarferol."

Cawn gopio gwyrth arall allan o un o gyfrolau yr "Efang-ylydd," tud. 64 :—

"IACHAD MISS FANCOURT.

"Mewn perthynas i iachad Miss Fancourt, yr hyn a ystyrir gan lawer yn wyrthiol, nyni a roddwn ger gwydd ein dar-llenyddion yr hanes yn wirioneddol, fel na raid i neb betruso o'i herwydd.

"Miss Fancourt sydd ferch i'r Parch. J. Fancourt. o Gaerludd, ac a gymmerwyd yn glaf yn mis Tachwedd, 1822. Yr oedd gwaew mawr trwy ei holl aelodau, ac ar droion byddai ei phoen yn dra angherddol. Amryw feddygon a ymwelasant â hi o bryd i bryd, a defnyddiwyd pob moddion er ei hesmwythau, ond yn gwbl ofer. Aeth tua glan y môr ar droion, ond dychwelai yn ol yn yr un sefyllfa; ac aeth mor wan yn y diwedd fel braidd y gallasai symud un droed o flaen y llall. Ac er pob ymdrechion i'w gwellhau, yr oedd yn glaf iawn, ac yn y loesion mwyaf pan y cynnygai ysgogi. Nos Fercher, yn mis Hydref, 1830, galwodd cyfaill yn y tŷ er ymweled â hi, a phan yr oedd y cymdeithion yn ymadael â'r ystafell lle yr oedd hi, gwnaeth ei chyfaill, y Parch. Mr. G., ryw esgusodion i aros yn ol. Eisteddodd yn ei

hymyl, ac wedi siarad rhyw bethau, cyfododd, gan ddywedyd, Y maent yn fy nysgwyl i swper; estynodd ei law iddi, ac wedi dywedyd rhyw beth am ei hafiechyd, ychwanegodd, Y mae yn drueni mawr gweled neb yn cael ei gaethiwo yn y wedd hon; atebodd hithau, Y mae wedi ei anfon mewn trugaredd. A ydych chwi yn credu hyny, eb efe, ac yn credu y gall yr un drugaredd eich adferu chwi? atebai hithau, Ydwyf. A ydych chwi, ychwanegai Mr. G., yn credu y gall Iesu iachau fel yn yr amserau gynt? Ydwyf. A ydych chwi yn credu mai anghrediniaeth sydd yn rhwystro hyny? Ydwyf. Ymddangosai Mr. G. y pryd hyn, fel yn ymdrechu â Duw mewn gweddi daer; Yna, ebe efe, cyfodwch, a rhodiwch, deuwch at eich teulu. Ymaflodd yn ei llaw, a gweddiodd am i Dduw ogoneddu enw ei Fab Iesu. Hithau a gyfododd mewn cryfder, a pheidiodd ei holl boenau, a rhodiodd lawr i'r grisiau, tra y gweddiai Mr. G., Arglwydd, trugarha wrthym; Crist, trugarha wrthym. Daeth ei holl esgyrn i'w lleoedd, a'i chnawd, yr hwn ydoedd rydd o'r blaen, a galedodd fel y mae mewn dyn iach."

Credwn, bellach, fod y pwnc o gyflawniad gwyrthiau yn y dyddiau hyn wedi ei benderfynu yn amlwg ddigon, fel nad oes anghen ychwanegu enghreifftiau. Yr ydym wedi cael allan fod y dynion sydd yn proffesu gwadu gwyrthiau yn yr oes hon, mewn gwirionedd yn credu ynddynt gymmaint â neb. Gan hyny, cawn, ymchwilio yn

IV. A YW GWYRTHIAU YN DDIGON O SAFON I BROFI DWYFOLDEB CREFYDD?

Nac ydynt; onide, byddai gau-grefyddau yn cael eu profi yn ddwyfol; canys yr ydym wedi dangos eisoes allu y gau-brophwydi i gyflawni gwyrthiau. Y mae'r cyfryw a osodant wyrthiau yn safon dwyfoldeb eu crefydd, yn agored i gael eu harwain gyda phob awel dysgeidiaeth. Pa beth, ynte, yw y safon goreu i brofi dwyfoldeb ein crefydd? Meddylia rhai mai y Beibl yw yr unig safon at hyny; ond dywedwn ni mai yr hyn a ddyweda y Beibl yw yr unig safon gwirioneddol. Os troir i Ioan vii, 17, gallwn weled y geiriau hyn; sef, "*Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys Ef, efe a gaiff* WYBOD *am y* DDYSGEIDIAETH, *pa un ai o Dduw y mae hi, ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru.*" Dyna yn unig yw maen prawf neu safon gwir grefydd; ond safon gau-grefyddau yw gwyrthiau, neu rywbeth croes i drefn Duw. Nid oes achos i neb betruso, wedi iddo wneuthur ewyllys Duw, canys efe a gaiff wybodaeth iddo ei hun am y ddysgeidiaeth, pa un a yw yn ddwyfol ai peidio: ac oddieithr i

bob dyn i gael gwybodaeth felly, y mae yn agored bob amser i gael ei dwyllo a'i arwain ar gyfeiliorn. Dynion wedi cael gwybodaeth felly fydd yr "etholedigion," y rhai ni fydd yn bosibl eu twyllo: ni wna gwyrthiau a rhyfeddodau un effaith arnynt hwy, oblegid byddant yn meddu gwybodaeth am y ddysgeidiaeth neu y grefydd a fyddant wedi gofleidio yn flaenorol. *Gwybodaeth*, gan hyny, yw y maen prawf i brofi y gwirionedd, ac nid dim arall. A oes rhywun yn gwybod yn well nag Iesu Grist? Os oes, pa le y cafodd ei ddysgu? nid yn ysgol gweision Duw, eithr yn ysgol gweision Belial. Mae y ddaear a'r nefoedd i fyned heibio cyn y palla un iot o'r hyn a lefarodd Mab Duw. Y mae'r safon i brofi ei grefydd ef yn yr oes hon, yn parhau yr un fath â'r grefydd ei hun; ac y mae hyny yn beth rhesymol i'w ddysgwyl. Gwneuthur ewyllys Duw, ac nid ymddibynu ar weled gwyrthiau, yw y ffordd gywir i brofi crefydd Crist. Os dywed dynion yn awr mai gwyrthiau oedd y maen prawf y pryd hyny, y maent yn croesi geiriau ein Harglwydd, oblegid tystiodd ef fel arall. Y mae yn rhaid gwybod trwy ddadguddiad ynghylch crefydd, onide fe fyddwn yn wrthddrychau i gael ein twyllo. Y ffordd oreu, ynte, yw i bawb wneuthur ewyllys Duw, fel y caffont wybodaeth am wir grefydd, ac fel y gallont gael eu geni drachefn, a'u gwneyd yn "etholedigion," y rhai ni fydd yn bosibl eu twyllo, serch tynu tân i lawr o'r nefoedd o flaen eu llygaid.

Wel, cyn diweddu, efallai yr ymhyfrydai rhywun gael ei ddysgu yn mhellach ynghylch y ffordd oreu i wneuthur ewyllys Duw, i'r dyben o gael y wybodaeth dan sylw. Os felly, creder yn Iesu Grist, nid yn unig mai efe yw Mab Duw, ond mai efe, o bawb arall, a ddylem ni gredu gyntaf; a chreder hefyd fod Iesu Grist wedi llefaru yr hyn ag oedd yn feddwl, a'r hyn ag oedd yn wirionedd. Wedi i ddynion gredu felly, dywedwn wrthynt, yn ngeiriau Pedr ar ddydd y Pentecost, "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch yn enw Iesu Grist, er maddeuant pechodau, a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân; canys i chwi y mae yr addewid, ac i'ch plant, ac i bawb yn mhell, cynnifer ag a alwo yr Arglwydd ein Duw ni ato" (Act. ii, 38, 39). Cyflawni y geiriau hyn yw gwneuthur ewyllys Duw; a gwneuthur ewyllys Duw sy'n hawlio gwybodaeth oddiwrtho am y ddysgeidiaeth a bregetha ei weision. Nid oes neb nad all ddeall geiriau Pedr, os yw wedi

dyfod yn ddigon bach: y rhai hyny ag sydd yn ymchwyddo ac yn dysgu bob amser, sydd yn methu dyfod i wybodaeth y gwirionedd. Nid trwy ddysgeidiaeth ddynol y mae dyfod i wybod ynghylch crefydd, ond trwy ufyddhau i ordinhadau yr efengyl, fel ag i dderbyn yr Ysbryd Glân, yr hwn yw Ysbryd y dadguddiad, ag sydd yn dwyn GWYBODAETH, yn lle GWYRTHIAU, i brofi dwyfoldeb crefydd.

Yr Arglwydd a oleuo feddyliau ein cyd-ddynion ynghylch ei efengyl santaidd, fel y byddont yn ufyddhau iddi ar fyrder, nid gan ofyn am arwydd neu wyrth, ond gan "ymateb cydwybod dda tuag at Dduw," fel ag i gyrhaedd bywyd tragywyddol, yr hyn yw adnabod Duw a'i Fab ef Iesu Grist. Felly y byddo. Amen.

J. DAVIS.

*Merthyr, Mai* 5, 1851.

J. DAVIS, ARGRAFFYDD, MERTHYR-TYDFIL.